# Cyhoeddi papurau cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer mis Medi 2025

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Titanic yn Queen's Road, Titanic Quarter, Belfast, a'i gadeirio gan Gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), yr Athro Susan Jebb.

Bydd yn dechrau am 9am, ddydd Mercher 17 Medi, ac mae croeso i'r cyhoedd fod ynol. Ewch ati i gofrestru yma os hoffech chi ddod i'r cyfarfod, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Mae agenda'r cyfarfod hwn yn cynnwys: ?

- Perfformiad blynyddol awdurdodau lleol
- Diweddariad blynyddol ar wyddoniaeth yr ASB
- Adroddiad ar les anifeiliaid 2024/25
- Diweddariad gan Gyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan (Saesneg yn unig).

## Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod hwn. Ewch ati i gofrestru os hoffech ddod i'r cyfarfod.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost: fsaboardmeetings@onetwo.agency

Yn ogystal, gallwch gofrestru i ymuno â'r cyfarfod yn fyw ar-lein.

## Cyflwyno cwestiwn i Fwrdd yr ASB

Mae Bwrdd yr ASB yn croesawu cwestiynau ar bapurau a gyhoeddwyd i'w trafod yn ei gyfarfodydd.

Gallwch gyflwyno'ch cwestiynau hyd at 5pm ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Bwrdd gan ddefnyddio'r ffurflen hon.?Sylwch fod cyfyngiad o 350 o eiriau ar y ffurflen i sicrhau bod eich cwestiwn yn gryno, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag ef yn llawn.

Bydd cwestiynau a ddaw i law yn y fformat hwn yn cael eu cyhoeddi y diwrnod cyn cyfarfod y Bwrdd. Byddwn yn anelu at anfon ateb atoch trwy e-bost o fewn 20 diwrnod gwaith i gyfarfod y Bwrdd, a bydd ymatebion hefyd yn cael eu cyhoeddi.

Ar gyfer cwestiynau nad ydynt yn ymwneud â’r un o’r papurau sydd ar yr agenda, neu ar gyfer gohebiaeth sy’n hirach nag y mae’r ffurflen ar-lein yn ei ganiatáu, anfonwch e-bost i correspondence@food.gov.uk a byddwn yn anelu at ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Sylwch na fydd y cwestiynau hyn na’u hatebion yn cael eu cyhoeddi fel arfer.